**OS wedi'i osod yn y Senedd sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**
**Teitl yr OS**

Rheoliadau Gwahardd Cyfyngiadau Meintiol (Ymadael â’r UE) 2020

## Trosolwg Polisi yr OS

Mae’r OS yn darparu y dylai’r darpariaethau ar y gwaharddiadau ar gyfyngiadau meintiol ar fewnforion ac allforion rhwng aelod-wladwriaethau sy’n parhau fel hawliau sy’n uniongyrchol effeithiol o fewn cyfraith ddomestig oherwydd adran 4 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ddod i ben.

## Cyfraith yr UE a Ddargedwir sy’n cael ei diwygio

- Hawliau uniongyrchol effeithiol o dan Erthyglau 34, 35 a 36 y Cytuniad ar Weithrediad yr UE 2007
- Hawliau effeithiol uniongyrchol o dan Erthyglau 11, 12 ac 13 Cytundeb yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Hawliau effeithiol uniongyrchol o dan Erthyglau 13, 13a ac 20 y Cytundeb rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Chydffederasiwn y Swistir.
- Hawliau effeithiol uniongyrchol o dan Erthyglau 5, 6 a 7 Penderfyniad rhif 1/95 Cyngor Cymdeithasu’r GE-Twrci ar weithredu cam terfynol yr Undeb Tollau y darperir ar ei gyfer o dan Erthyglau 5 a 10 y Cytundeb sy’n sefydlu Cymdeithas rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Thwrci a lofnodwyd yn Ankara ar 12 Medi 1963.

## Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwyster deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwyster gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol na gweithredol

## Diben y diwygiadau

Mae’r OS gweithdrefn negyddol yn mynd i’r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill sy’n deillio o ymadawiad y DU â’r UE.

Mae’r OS yn dirymu hawliau uniongyrchol effeithiol y cytuniad (DETRau) o dan Erthyglau 34 i 36 y Cytuniad ar Weithrediad yr UE, Erthyglau 11 i 13 Cytuniad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA), Erthyglau 13, 13a ac 20 y Cytundeb rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Chydffederasiwn y Swistir ac Erthyglau 5, 6 a 7 Penderfyniad rhif 1/95 Cyngor Cymdeithasu’r GE-Twrci ar weithredu cam terfynol yr

Undeb Tollau y darperir ar ei gyfer o dan Erthyglau 5 a 10 y Cytundeb sy'n sefydlu Cymdeithas rhwng y Gymuned Economaidd Ewropeaidd a Thwrci a lofnodwyd yn Ankara ar 12 Medi 1963. Bydd yr hawliau uniongyrchol effeithiol hyn o fewn y cytuniad yn cael eu cadw o fewn cyfraith yr UE oherwydd adran 4 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ar 31 Rhagfyr 2020. Os na chaiff y DETRau hyn eu dirymu byddant yn parhau i fod yn berthnasol wedi diwedd y cyfnod gweithredu.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol atodol, yn nodi effaith y diwygiadau ar gael yma:

https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-prohibition-on-quantitative-restrictions-eu-exit-regulations-2020

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod di-angen o fewn y llyfr statud. Byddai cydsynio i OS ledled y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei fod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.